Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd :** | Swyddog Cymunedol Gwent (dan Hyfforddiant) | **Lleoliad :** | Llanisien |
| **Adran :** | Ieuenctid a Chymuned | **Cyflog :** | Graddfa 3 yn arwain at 4 wedi cyfnod o Hyfforddiant penodol llwyddiannus. |
| **Oriau Gwaith :** | 35 awr yr wythnos | **Cytundeb :** | Swydd barhaol, llawn amser. |
| **Yn adrodd i :** | Rheolwr Cymunedol De Cymru | **Rheolaeth Llinell:** | Na |

**Prif bwrpas y swydd:**

Bydd disgwyl i'r Swyddog ddenu grwpiau ac ysgolion newydd i fynychu Gwersylloedd yr Urdd a chystadlu yn Eisteddfodau Cylch/Rhanbarth yr Urdd. Bydd y swyddog yn gyfrifol am weithredu ar dystiolaeth penodol sy'n nodi'r ysgolion a grwpiau nad yw yn ymweld â'r Gwersylloedd nac yn cystadlu mewn Eisteddfodau ar hyn o bryd. Bydd y Swyddog yn adnabod cyfleoedd cymunedol ac yn trefnu darpariaeth addas sy'n ymateb i anghenion plant a phobl ifanc. Bydd disgwyl i'r Swyddog ymestyn cynnig yr Urdd o ran amrywiaeth, cynnwys, grwpiau targed, creadigrwydd a chyfleoedd i bobl ifanc o bob gallu celfyddydol, hil a chefndir.

Bydd cynllun hyfforddiant penodol mewn lle ar gyfer y swydd hon am gyfnod a fydd yn helpu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y deilydd swydd o'r holl dargedau sydd yn rhan o'r disgrifiad swydd. Bydd cyfle i oruchwylio staff cymunedol eraill yn eu gwaith yn ogystal a chael cefnogaeth dydd i ddydd y Rheolwr a Mentor.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

**Gwersylloedd**

1. Trefnu ymweliadau hyrwyddo mewn ysgolion a chyd-drefnu cyrsiau i ysgolion a clystyrau
2. Trefnu penwythnosau gwersylloedd rhanbarthol yn ôl y galw ar cyd a'r Rheolwr.
3. Cydweithio i drefnu a mynychu rhaglen o gyfnodau gwersyll cenedlaethol ar y cyd a gweddill y tim
4. Mynychu cyrsiau clwstwr mewn gwersylloedd.

**Eisteddfod**

1. Cynorthwyo i gynllunio a threfnu holl agweddau'r Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth. Gweithredu cynllun i ddenu ysgolion a grwpiau newydd amrywiol i gystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth.

2. Cefnogi'r Pwyllgorau Cylch / Rhanbarthau i gyfarfod i drefnu Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth gan sicrhau llais pobl Ifanc (dan 25) ar y Pwyllgorau hyn.
3. Cefnogi'r bwrlwm o ddigwyddiadau yn unol â lleoliadau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
4. Hyrwyddo, cefnogi a chydweithio ar brosiectau Rhyngwladol yn ôl y galw
5. Cynorthwyo yn ôl yr angen yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
6. Cydweithio ar Theatr Ieuenctid yr Urdd.

**<u>Cymunedol</u>**

7. Mapio darpariaeth y rhanbarth, gan gynnwys pobl Ifanc, i ddarganfod y bylchau lle gellid llunio gweithgareddau addas i ateb anghenion plant a phobl ifanc.
8. Adnabod a sefydlu partneriaethau, i hwyluso darpariaeth leol ac ehangu profiadau plant a phobl ifanc ar y cyd a'r Rheolwr.
9. Cydweithio i gydlynu amserlen o weithgareddau i blant a phobl ifanc tu allan i oriau ysgol yn cynnwys clybiau, gweithdai, teithiau undydd neu breswyl.
10. Cydweithio a'r Swyddogion Ieuenctid i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc.
11. Cefnogi cynlluniau strategol trawsadrannol a chenedlaethol sydd yn ehangu gorwelion celfyddydol plant a phobl ifanc.
12. Hyrwyddo'r Urdd ac aelodaeth o fewn ysgolion y Rhanbarth.
13. Cynnal sesiynau a gweithgareddau o fewn ysgolion y Rhanbarth.

**<u>Gwirfoddoli</u>**

14. Cydweithio i Sefydlu rhwydwaith lleol o wirfoddolwyr o bob oed i gefnogi holl weithgarwch yr Urdd o fewn y Rhanbarth.
15. Annog pobl ifanc i wirfoddoli, trwy gynnig cyfleoedd, hyfforddiant, cefnogaeth a phrofiadau.

**<u>Codi Arian</u>**

16. Cydweithio gyda'r Rheolwr i gyrraedd y targed ariannol rhanbarthol a osodir gan y Cyfarwyddwr
17. Cyflwyno ceisiadau ariannol i gynnal gweithgareddau yn rhanbarthol yn dilyn hyfforddiant yn y Maes.

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol:** | **Dymunol:** |
|---|---|
| 1. Rhaid meddu ar sgiliau cyfathrebu da yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>2. Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.<br><br>3. Person brwdfrydig, egnïol, a chreadigol i godi diddordeb yng ngweithgareddau'r Urdd yn y r rhanbarth<br><br>4. Bod â thrwydded yrru llawn a defnydd o gar.<br><br>5. Profiad o drefnu a chydlynu prosiectau<br><br>6. Bod a phrofiad o ddefnyddio platfformau digidol i gynnig gweithgareddau i blant a phobl ifanc a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gweithgareddau | 1. Profiad a/neu gymhwyster mewn gwaith ieuenctid (cynigir cwrs penodol Agored Cymru Lefel 2 sydd yn arwain at gwblhau Tystysgrif Lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid 3 onid yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster neu gymhwyster gwaith ieuenctid uwch).<br><br>2. Dealltwriaeth o hawliau plant a phobl Ifanc. |

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad :** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:** Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:** Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Gorffennaf 2023 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

## CRYNODEB O'R TELERAU, AMODAU AC BUDDIANNAU

(ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff)

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Cymunedol Gwent (dan Hyfforddiant) |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| **Gwiriad GDG:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| **Cyflog:** | Penodir ar Bwynt 1 ar y raddfa berthnasol, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. Yn Ebrill bob blwyddyn, bydd staff fel arfer yn symud un pwynt oddi mewn i'r raddfa gyflog hyd nes y byddant yn cyrraedd pwynt 4. Mae hyn ar yr amod bod aelod o staff yn gyflogedig gan y mudiad ar 31ain o Ragfyr a heb gyrraedd pen y raddfa<br>Wedi cyfnod boddhaol o dan hyfforddiant bydd deilydd y swydd yn datblygu i raddfa 4 gan weithredu gofynion y Gwaith yn annibynnol |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| **Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi:** | Arwahan i'ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i'r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun |

| | |
|---|---|
| | 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Profion Llygaid:** | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| **Yswiriant Bywyd:** | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| **Disgownt i staff:** | Mae modd cael gostyngiad o :<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- 1 tocyn oedolyn a thri tocyn plentyn am ddim i'r Eisteddfod pob dydd.<br>- 2 docyn i gyngerdd nos yn yr Eisteddfod a 2 docyn i Ysgoloriaeth Bryn Terfel. |